

CYLCHLYTHYR IECHYD CYMRU

Dyddiad Cyhoeddi: 1 Mawrth 2016

STATWS: GWYBODAETH

CATEGORI: LLYTHYR GWEITHIWR IECHYD PROFFESIYNOL

Teitl: Penderfyniadau Gofal ar gyfer Dyddiau Olaf Oes

Dyddiad Dod i ben / Dyddiad yr Adolygiad:

Bob blwyddyn

I'w weithredu gan:

Byrddau ac ymddiriedolaethau iechyd

Angen gweithredu erbyn:

1 Ebrill 2016

Anfonwr:

Dr Ruth Hussey, Prif Swyddog Meddygol / Cyfarwyddwr Meddygol

Enw(au) Cyswllt GIGC Llywodraeth Cymru:

Vivienne Collins, Polisi Gofal Iechyd, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays 2, CF10 3NQ; 02920 825922

Dogfennau Amgaeedig: Dim (gweler hypergysylltau)

Dr Ruth Hussey CB OBE
Prif Swyddog Meddygol/Cyfarwyddwr Meddygol, GIG Cymru
Chief Medical Officer/Medical Director NHS Wales

At: Prif Weithredwyr, GIG Cymru

Cc: Arweinwyr gofal diwedd bywyd ymddiriedolaethau a byrddau iechyd

Mawrth 2016

Annwyl Brif Weithredwyr

PENDERFYNIADAU GOFAL AR GYFER DYDDIAU OLAF OES

Elfen allweddol o angen cleifion, a rhai eu teuluoedd, yw gofal da ar gyfer 'diwedd oes'. I'r diben hwn mae'r Cylchlythyr Iechyd Cymru hwn yn pwysleisio pwysigrwydd parhad gofal i gleifion hyd at ddiwedd eu hoes, waeth beth fo cyflwr iechyd corfforol neu feddyliol cleifion.

Amlinellir y polisi a ddiweddarwyd yn nogfen Penderfyniadau Gofal ar gyfer Dyddiau Olaf Oes. Mae'r ddogfen hon, a fydd yn cymryd lle'r Polisiâu Gofal Integredig Cymru Gyfan presennol, i'w defnyddio yn nyddiau olaf oes o 1 Ebrill 2016 ymlaen, ar gael ar wefannau byrddau ac ymddiriedolaethau iechyd.

<http://wales.pallcare.info/images/documents/Last%20days%20of%20life/CDLDoL%20Care%20Decisions%20V5.3.pdf>

Bydd timau gofal lliniarol byrddau iechyd yn arwain y gwaith o weithredu'r pecyn hyfforddi ar gyfer gweithredu Penderfyniadau Gofal ar gyfer Dyddiau Olaf Oes. Gellir gweld y ddogfen drwy glicio ar y ddolen ganlynol:

http://wales.pallcare.info/index.php?option=com_content&view=article&id=53&Itemid=244

Cefndir

Mae ansawdd y gofal a roddir i glaf sy'n marw'n cael effaith barhaol ar deuluoedd a gofalwyr. Mae gofal o ansawdd da ar ddiwedd oes a chyfathrebu da rhwng gweithwyr proffesiynol a theuluoedd yn helpu unigolion ar ddiwedd eu hoes ac yn helpu teuluoedd i ymdopi â phrofedigaeth.

Mae'n bwysig bod pob gweithiwr gofal iechyd, waeth beth fo'i arbenigedd, yn ystyried dymuniadau eu cleifion o ran gofal diwedd oes fel rhan o'r gofal sylfaenol y maent yn ei ddarparu i gleifion. Mae'r Blaenoriaethau Gofal Integredig Cymru Gyfan a ddefnyddir yn ystod dyddiau olaf oes yn cael eu dileu'n raddol ac ni ddylid eu defnyddio ar ôl 31 Mawrth 2016.

Mae'r ddogfen a ddaw yn ei lle, Penderfyniadau Gofal ar gyfer Dyddiau Olaf Oes, wedi ei datblygu gan y Grŵp Gweithredu Clinigol Lliniarol gyda chymorth arweinydd clinigol gofal diwedd bywyd o bob bwrdd iechyd. Mae treial ac ymatebion i ymgynghoriad wedi cyfrannu at y ddogfen.

Y llynedd sefydlwyd is-grŵp Grŵp Gweithredu Clinigol Lliniarol er mwyn datblygu pecyn addysgol i helpu i gyflwyno'r ddogfen a gymeradwywyd gan Fwrdd Gweithredu Gofal Diwedd Oes ym Medi 2015.

Gweithredu

Nod y Cylchlythyr Iechyd hwn yw hysbysu pob bwrdd ac ymddiriedolaeth iechyd yng Nghymru y bydd Penderfyniadau Gofal ar gyfer Dyddiau Olaf Oes yn disodli'r Blaenoriaethau Gofal Integredig o 1 Ebrill 2016 ymlaen. Rydym eisiau sicrhau bod staff yn gyfarwydd â'i ofynion a'u bod wedi eu paratoi'n llawn i ddarparu lefel o ofal cyson sy'n briodol i gleifion a'r rhai sy'n bwysig iddynt yn nyddiau olaf eu bywyd, ac i fyrddau iechyd ac ymddiriedolaethau iechyd weithio'n effeithiol gyda'u partneriaid.

Dylai Penderfyniadau Gofal ar gyfer Dyddiau Olaf Oes gael eu hystyried a'u rhoi ar waith ochr yn ochr, ac ar y cyd â phrif gyhoeddiadau iechyd fel Law yn llaw at lechyd: Darparu Gofal Diwedd Oes - cynllun cyflawni ar gyfer GIG Cymru a'i bartneriaid hyd at 2016 a chanllawiau 2015 NICE '*Care of the Dying Adult*' er mwyn sicrhau bod dymuniadau'r claf a'r rhai sy'n bwysig iddo ef neu hi'n cyfri.

Bydd y gwaith hwn yn cefnogi'r blaenoriaethau a amlinellwyd yng nghynllun cyflawni Gofal Diwedd Oes drwy helpu i'w weithredu erbyn Ebrill 2016 a bwrw ymlaen â chynllun cyflawni Gofal Diwedd Oes.

Datblygwyd pecyn hyfforddi gan arweinwyr gofal lliniarol mewn byrddau iechyd. Bydd arweinwyr gofal lliniarol yn helpu i rannu'r wybodaeth hon.

Cyllid

Mae cyllid o'r £10m ychwanegol a gyhoeddwyd y llynedd ar gyfer y deg cynllun cyflawni, ar gael i fyrddau ac ymddiriedolaethau iechyd a fydd yn gweithio gyda'r sector gwirfoddol i ddarparu hyfforddiant ar gyfer cyflwyno Penderfyniadau Gofal ar gyfer Dyddiau Olaf Oes. Bydd eich Cyfarwyddwyr Cyllid wedi derbyn llythyr sy'n cynnwys gwybodaeth am y cyllid a dderbyniwyd i'r diben hwn.

Os oes gennych unrhyw sylwadau cyffredinol, cysylltwch â'r Adain Polisi Prif Gyflyrau Iechyd drwy Vivienne.collins@wales.gsi.gov.uk rhif ffôn: 02920 825922. Neu i gael gwybodaeth benodol cysylltwch â Veronica Snow, Rheolwr Rhaglen, Bwrdd Gweithredu Gofal Diwedd Oes ar 02920 196113 neu 07540 806775.

Yn gywir

Ruth Hussey

DR RUTH HUSSEY CB OBE